

RHYS ap GRUFFYDD (1132 - 1197), arglwydd Deheubarth (' Yr Arglwydd Rhys ').

Enw: Rhys ap Gruffydd

Dyddiad geni: 1132

Dyddiad marw: 1197

Priod: Gwenllïan ferch Madog ap Maredudd

Plentyn: Gwenllïan ferch Rhys ap Gruffydd

Plentyn: Rhys Gryg

Plentyn: Gruffydd ap Rhys

Plentyn: Maelgwn ap Rhys

Plentyn: Hywel ap Rhys

Plentyn: Cynwrig ap Rhys

Rhiant: Gwenllïan ferch Gruffudd

Rhiant: Gruffydd ap Rhys ap Tewdwr

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: arglwydd Deheubarth

Maes gweithgaredd: Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil, Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Thomas Jones Pierce

Mab iau **Gruffydd ap Rhys ap Tewdwr**, a **Gwenllïan**, ferch **Gruffydd ap Cynan**. Pedair oed yn unig oedd pan fu ei dad farw, y daeth ei hanner brodyr **Anarawd** a **Chadell** yn arweinwyr y gwrthryfel yn Ne Cymru yn erbyn y Normaniaid. Pan oedd yn 13 oed fe'i ceir gyda'i frawd hŷn, **Maredudd**, yn ymladd o dan arweiniad **Cadell** yn 1146. Yn ystod y 10 mlynedd nesaf gwelwyd ail-ffurfio hen frenhiniaeth Deheubarth gydag ymlyd teulu **Clare** o Geredigion a theulu Clifford o'r Cantref Bychan a Llanymddyfri, a daeth Rhys yn unig reolwr y deyrnas hon ar farwolaeth **Maredudd** yn 1155; yr oedd **Cadell** wedi'i glwyfo a cholli ei iechyd am byth, bedair blynedd yn gynt. Disgynnodd mantell hen frenhinoedd Deheubarth ar ysgwyddau Rhys ar adeg pan gawsai'r sefyllfa boliticaidd yn Lloegr ei thrawsfurfio gan esgyniad Harri II, a dyma'r ffaith bwysicaf ym mywyd Rhys am y 30 mlynedd nesaf. Ar waethaf rhai arwyddion o wrthwynebiad ymostyngodd i'r brenin yn 1158; cymerwyd Ceredigion a rhan helaeth o Ystrad Tywi oddi arno, a bu raid iddo hefyd gydnabod awdurdod uwch y brenin dros diriogaethau ei gyndadau yng Nghantref Mawr. At y weithred hon o wrogaeth, ymddengys i Rys orfod cytuno hefyd i beidio mwyach â'i alw ei hun yn frenin, oblegid o hyn ymlaen fe'i disgrifir yn y croniclau bod amser fel ' Yr Arglwydd Rhys ' - gweler **Owain Gwynedd** a **Madog ap Maredudd**.

Am y saith mlynedd nesaf y mae gwrthryfeloedd a chytundebau ysbeidiol y cyfnod yma yn dyst i'w anesmwythd a'i uchelgais ofer, ond cafodd ei gyfle yng ngwrthryfel mawr 1164-5. Yr oedd Harri ar y pryd yn brysyr yn ei wlad ei hun, a chymerth Rhys Geredigion ac Emlyn i'w feddiant (gan gynnwys caerau Aberteifi a Chilgeran) ac yn fuan iawn fe'i cafodd ei hun yn ôl yn y safle a gymerasid oddi arno yn 1158. Othenwydd nifer o amgylchiadau ffafriol, llwyddodd hyd ddiwedd ei oes i ddal ei afael yn llwyr ar y tiroedd hyn, ac yn wir, i ychwanegu atynt rannau o Ddyfed. Ychydig o berygl a oedd iddo i'w ofni o gyfeiriad na Phowys na Gwynedd ar ôl y flwyddyn 1170 pan fu farw **Owain Gwynedd**; tua'r un adeg yr oedd y mwyaf terfysglyd o Normaniaid Dyfed yn cynorthwyo yn y goresgyn ar Iwerddon, a chafodd Harri gymaint o ofn yr ymgyrch honno, ac yntau eisoes wedi colli ei enw da gyda llofruddiaeth Thomas à Becket, fel y penderfynodd geisio cyfeillach Rhys. Cadarnhawyd awdurdod Rhys ar Ddeheubarth, a gwnaed ef yn Ustus De Cymru, a'i gydnabod fel teyrn Cymreig mwyaf blaenllaw ei gyfnod. O ganlyniad, ymwrthododd yntau â phob hawl i statws frenhinol ei hynafiaid, gan ymfodloni ar y gallu a oedd yn barod yn ei ddwylo a mynd ati i gydweithredu yn deyrngarol â'r brenin a chychwyn ffasiwn ymysg ei gyd-reolwyr yng Nghymru trwy fabwysiadu dulliau gwisgo ac arferion teuluol y Normaniaid a dilyn eu hesiampl hefyd mewn materion llysol a gwladwriaethol. Dechreuwyd adeiladu castell yn y dull newydd yn Ninefwr, yr hen brif 'ddinas'; yn Aberteifi hefyd fe godwyd caer arall gyffelyb, sef honno y cynhaliwyd ynddi 'eisteddfod' enwog 1176 o dan nawdd Rhys. Rhoes ei gefnogaeth i urddau mynachaid newydd yr oes ac yr oedd ganddo ddiddordeb yn lles crefyddol ei ddeiliaid; cafodd y Tŷ-gwyn-ar-Daf ei nawdd, ef oedd gwir sefydlydd Ystrad Fflur, ac yr oedd Talylychau yn greadigaeth arbennig o'i eiddo.

Cymylwyd ar ei flynyddoedd olaf gan elyniaeth a dygasedd ei feibion a chan ddiferwch y llywodraeth newydd o dan Richard I tuag at y safle arbennig a ddaliasai Rhys hyd yn hyn. Gan gredu mai trwy ymosod y gallai ei amddiffyn ei hun orau, ailddechreuodd ymladd â'i gymdogion Normanaidd, a pharhaodd y brwydro hyd ddiwedd ei oes. Bu farw 28 Ebrill 1197 a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Tyddewi. O'i wraig, Gwenllïan ferch **Madog ap Maredudd**, ganed iddo wyth mab (gweler **Gruffydd ap Rhys**, **Rhys Gryg**, **Maelgwn**) a merch, Gwenllïan, a briododd **Ednyfed Fychan**.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II

Oxford Dictionary of National Biography

Archifau LIGC: NLW MS 6680B: Llawysgrif Hendregadredd

T. Jones Pierce, *Strata Florida Abbey, Ceredigion*, 1950, 18-33

Archaeologia Cambrensis, 1948, 143-5

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: Rhys ap Gruffudd

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 74740527

Wikidata: Q741855

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Pierce, T. J., (1953). RHYS ap GRUFFYDD (1132 - 1197), arglwydd Deheubarth (' Yr Arglwydd Rhys '). Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RHYS-APG-1132>

CC BY-NC-ND

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Nodir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government